

Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enw(au) cyntaf		4



## LEFEL 2

### GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD Unedau 001/003 Meithrinfa Blossom Tree Set C

Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	4	
2.	6	
3.	2	
4.	2	
5.	2	
6.	3	
7.	2	
8.	4	
9.	5	
<b>Cyfanswm</b>	<b>30</b>	

5952N1013C1  
01

<b>Sylwadau'r Aseswr:</b>
<b>Llofnod IQA:</b>
<b>Dyddiad:</b>

## Senario – Meithrinfa Blossom Tree

Mae Louisa yn y broses o sefydlu meithrinfa ddydd newydd sbon yn y dref lle mae hi'n byw. Mae hi wedi bod yn cyfarfod â'r tîm Cefnogaeth Busnes Gofal Plant i drafod deddfwriaeth gofal plant, swyddogaeth y corff rheoleiddio a'r broses gofrestru.

Mae Louisa nawr yn aelod o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (*National Day Nurseries Association: NDNA*). Mae hi'n gweithio'n agos gyda nhw i gael cyngor arbenigol am ddatblygu proffiliau rôl i staff sy'n cynnwys cyfrifoldebau proffesiynol, contractau cyflogaeth a chodau ymarfer. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau'r cwmni, sy'n gorfod bodloni disgwyliadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae Louisa wedi cael gwybod ei bod hi'n barod i weithredu fel darparwr gofal plant cofrestredig unwaith bydd y lleoliad wedi dod o hyd i dîm o staff priodol.

Mae Louisa wedi llwyddo i gyflogi tîm llawn gan gynnwys person â gofal (*person in charge*) a dirprwy (Rhian) ac mae hi wedi penderfynu cynnig diwrnod agored lle bydd yr holl staff yn bresennol. Mae hi wedi gwahodd plant a'u teuluoedd/gofalwyr, yr NDNA, ac aelodau o'r gymuned leol i'r diwrnod agored er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol.

Mae Louisa wedi trefnu cyfnod sefydlu llawn (*full induction*) i'r holl staff yn y feithrinfa cyn y diwrnod agored. Yn ystod y cyfnod sefydlu, mae hi'n gofyn i'r staff dreulio rhywfaint o amser fel tîm yn rhannu gwybodaeth amdany'n nhw eu hunain a'u cefndir. Mae hi hefyd yn hwyluso ymarferion meithrin tîm (*team building*) gan fod Louisa yn credu bod tîm effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant a bydd hyn yn ganolog i Feithrinfa Blossom Tree. Mae Louisa yn bwriadu cynnal ymarferion meithrin tîm yn rheolaidd yn ogystal â chynllunio gweithgareddau hwyliog i'r staff er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw agwedd gadarnhaol tuag at waith.

Er mwyn meithrin perthnasoedd proffesiynol â rhieni a gofalwyr, mae angen i staff lofnodi polisi cyfryngau cymdeithasol. Mae Louisa yn eu hatgoffa nhw o'u dyletswydd gofal tuag at y plant ac o bwysigrwydd eu rôl a pham dylen nhw ymddwyn mewn modd priodol y tu mewn i'r lleoliad neu'r tu allan iddo. Mae hi hefyd yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd bod yn agored ac yn onest bob amser a bydd hi'n cynnal sesiynau goruchwyllo, arfarniadau a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd i roi cyfle i drafod.

Mae'n ddiwrnod un ym Meithrinfa Blossom Tree. Mae Rhian a gweddill y tîm wedi cynllunio'r gweithgareddau fydd yn cael eu cynnig. Mae Rhian yn cwblhau'r asesiad risg dyddiol cyn agor y feithrinfa. Mae Rhian yn sylwi bod y cogydd wedi gadael y drws cefn ar agor ar ôl derbyn danfoniad (*delivery*), ac mae hi'n rhoi gwybod i Louisa am ei phryderon.

Mae'r plant yn ymgartrefu (*settling in*) yn raddol. Mae dau o weithwyr allweddol Rhian yn dechrau sesiynau ymgartrefu gyda'r plant. Bydd hyn yn cynnwys treulio amser gyda phob set o rieni/gofalwyr i gwblhau proffil y plentyn. Bydd y proffiliau'n cynnwys gwybodaeth am hoff bethau, cas bethau, teulu, cartref, dewis iaith, anghenion deietegol a threfn arferol (*routine*) y plentyn. Mae Rhian yn bwriadu treulio hanner awr cyntaf yr ymweliad yn chwarae gyda'r plant ac yn dod i wybod mwy amdany'n nhw cyn dechrau cwblhau'r gwaith papur.

Mae'r plant yn cael cymaint o sesiynau ymgartrefu â sydd eu hangen arny'n nhw a chyfrifoldeb y gweithiwr allweddol yw cynllunio'r rhain a sicrhau bod y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn bodloni anghenion y plant. Gweithwyr allweddol sydd hefyd yn gyfrifol am drosglwyddo gwybodaeth i aelodau eraill o'r tîm fel bod y staff i gyd yn gallu cefnogi'r plant.

Unwaith bydd y sesiynau ymgartrefu wedi'u cwblhau, mae Louisa yn gofyn i Rhian gofnodi'r wybodaeth ym mhroffil y plentyn ar iPad y lleoliad. Mae Louisa hefyd wedi gofyn i Rhian ddangos i aelodau eraill o staff sut i wneud hyn. Mae'n rhaid storio'r holl ddogfennau (papur ac electronig) yn unol â pholisi cyfrinachedd y lleoliad.

Erbyn hyn, mae'r lleoliad wedi bod yn gweithredu ers 7 mis ac mae'r holl staff wedi cael gwybod y bydd arfarniadau'n digwydd. Mae angen iddyn nhw werthuso eu hymarfer yn erbyn nifer o feini prawf ac edrych drwy'r llawlyfr hyfforddiant i ystyried pa hyfforddiant bydden nhw'n hoffi ei gael yn y dyfodol.

Mae Louisa yn trafod gyda Rhian pa gefnogaeth sydd ei hangen arni er mwyn gwella ei defnydd o Gymraeg achlysurol (*incidental Welsh*). Mae Louisa hefyd yn canmol Rhian am ei hymdrechion i gefnogi aelodau eraill o'r tîm i gwblhau proffiliau personol yn electronig.

Atebwch **bob** cwestiwn.

## Cwestiynau Meithrinfa Blossom Tree: Set C

1. (a) Un o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer ym Meithrinfa Blossom Tree yw ymarfer myfyriol (*reflective practice*). Disgrifiwch pam mae'r egwyddor hon yn bwysig. [2]

.....

.....

.....

.....

- (b) Enwch **ddwy** egwyddor arall sy'n sail i ymarfer ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [2]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

2. (a) Nodwch **dair** ffordd mae Meithrinfa Blossom Tree yn cefnogi gweithio perthynas-ganolog. [3]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

(iii) .....

.....

(b) Esboniwch pam mae gweithio perthynas-ganolog yn bwysig i blant a'u teuluoedd. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3. Mae Louisa yn bwriadu cynnal ymarferion meithrin tîm yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan y staff agwedd gadarnhaol tuag at waith. Disgrifiwch pa effaith bydd hyn yn ei chael ar blant a'u teuluoedd. [2]

.....

.....

.....

.....

4. Nodwch **ddwy** ffordd mae'r lleoliad yn cefnogi cyfrinachedd. [2]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

5. Mae Louisa yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd bod yn agored ac yn onest bob amser. Amlinellwch pam mae hyn yn bwysig. [2]

.....

.....

.....

.....

6. Trafodwch bwysigrwydd parchu gwahaniaethau diwylliannol wrth weithio mewn partneriaeth.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Nodwch **ddau** ddull mae Meithrinfa Blossom Tree yn eu defnyddio i ddangos gwaith tîm effeithiol. Esboniwch sut mae hyn yn effeithio ar lesiant plant. [2]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

8. (a) Mae angen i Louisa storio gwybodaeth bersonol ar iPad y lleoliad. Amlinellwch pa systemau diogelwch sydd eu hangen i ddiogelu gwybodaeth bersonol. [2]

.....

.....

.....

.....

(b) Nodwch **ddau** ffactor i'w hystyried wrth gofnodi gwybodaeth ar broffiliau personol y plant. [2]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

9. (a) Amlinellwch pam mae'n bwysig bod yn broffesiynol ar y cyfryngau cymdeithasol wrth weithio mewn lleoliad gofal plant.

[2]

.....

.....

.....

.....

- (b) Esboniwch sut mae myfyrion ar ymarfer yn ystod sesiynau goruchwylio yn cefnogi datblygiad proffesiynol.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

**DIWEDD Y PAPUR**

